

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd nos Lun 20/10/2014
Minutes of the meetings held on Monday evening 20/10/2014

Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair)	Mr Elfed Jones	Mr Dei Owens	Mrs Julia Dobson
Mr David Livingstone	Mrs Carys Davies	Mrs Marilyn Hughes	Mr Tony Hughes
Mrs Rose Griffiths			

Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng./Cllr Wil Hughes Cyng./Cllr Richard O Jones

Yn Bresennol / In Attendance:

Mrs Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk) Ms Eira Parry (Cyfieithu / Translation) PCSO Katie Hughes

Ymddiheuriadau / Apologies:

Mr Jack Longman Mr Ricky Hughes Cyng./Cllr Aled Morris Jones

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.
Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.

2 Fandaliaeth yn y Cae Chwarae / Vandalism in the Play Area

Daw PCSO Katie Hughes i'r cyfarfod ar fyr rybudd i drafod fandaliaeth a difrod diweddar yn y cae chwarae. Mae un o'r meinciau wedi ei ddinistrio yn llwyr. Diolchwyd iddi am ddoed i'r cyfarfod i drafod y mater, ac roedd y Cynghorwyr yn ddiolchgar iddi a'i chydweithwyr am eu cefnogaeth. Cafwyd diweddariad am brosiectau'r heddlu yn yr ardal, a hefyd trafodwyd y pwysigrwydd o adrodd unrhyw ddigwyddiadau allan o'r cyffredin gan eu bod efallai yn gysylltiedig â digwyddiadau eraill yn yr ardal gyfagos. PCSO Alison Williams sy'n gweithredu yn ardal Cemaes fel rheol.

Fe gytunodd yr aelodau y byddai cael pris am drwsio'r fainc er mwyn cael ei ail-osod cyn gynted â phosib.

PCSO Katie Hughes attended the meeting at short notice following recent bouts of vandalism at the play area. One of the benches has been severely damaged. The members thanked PCSO Hughes for her attendance to discuss the matter and for her, and her colleagues continued support. Those present were given an overview of the current projects the police are running in the area. The importance of reporting any incidents and unusual activity was also discussed as some activities may be linked to other unusual behaviour and crime in other areas nearby. PCSO Alison Williams normally covers the Cemaes area.

The members agreed to obtain a quote for repairing the bench so that it may be reinstated as soon as possible.

3 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio / Planning - Wil Hughes, Richard Jones

4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones, eiliwyd gan Dei Owens.
The minutes were accepted as a true record. Proposed by Elfed Jones, seconded by Dei Owens.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Arwyddion Twristiaeth / Tourism Signs

Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir bod arwyddion twristiaeth eisoes yn eu lle, ac mai dim ond pedwar symbol sydd yn bosib ar bob arwydd. Ni chafwyd pris hyd yma, ac mae disgwyl cadarnhau pa symbolau sydd eu hangen cyn symud ymlaen. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto am amcan bris cyn trafod ymhellach.

The County Council have stated that the tourism signs are already in place, and that a maximum of four symbols may be included on any sign. No price has been quoted as yet, and there is a need to confirm which symbols are required before progressing further. The Clerk was asked to make contact again for an estimate price before further discussion takes place.

4.2 Les Cae Pêl Droed / Football Field Lease

Mae popeth gan y cyfreithwyr ar hyn o bryd. / *The matter is with the solicitors at present.*

4.3 Camerâu CCTV Cameras

Mae angen i'r Cyngor gofrestru gyda'r 'Information Commissioner's Office' am gost o £35 y flwyddyn gan fod y camerâu mewn man cyhoeddus. Pawb yn hapus i dalu'r swm. Deallwyd bod y system wedi ei thrwsio a bod bellach pum camera yn weithredol.

The Council needs to register with the Information Commissioner's Office for an annual cost of £35 as the cameras overlook public spaces. All present were happy to pay the sum. It was understood that the CCTV system has been repaired and that there are now 5 operational cameras.

4.4 Harbwr / Harbour

Mae'r wybodaeth oedd ei angen mewn ymateb i lythyr Mr Dafydd Williams, Boathouse, wedi ei dderbyn erbyn hyn ac fe fydd y Clerc yn anfon ymateb iddo.

The information required to respond to Mr Dafydd Williams, Boathouse' letter is now in hand. The Clerk will write to him with the information requested.

5 Cyllid / Finance

Cafwyd adroddiad gan Marilyn Hughes ar ran y Pwyllgor Cyllid yn dilyn eu cyfarfod 16/10/2014. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn ofalus gan fod arian yn brin. Bydd angen edrych ar y briseb ar gyfer 2015/16 yn fuan. Cafwyd cadarnhad bod yr arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y caeau chwarae (£5,000 yr un) i ddod o'r cyfrif gadw yn Nat West.

Marilyn Hughes gave a report on behalf of the Finance Committee following their meeting 16/10/2014. Emphasis was on the need to be careful as funds were limited. There will be a need to look at the budget for 2015/16 soon. It was confirmed that the funds earmarked for the play areas (£5,000 each) was to come from the Nat West reserve account.

6 Cynllunio / Planning

6.1 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniadau canlynol -
The County Council confirmed the following decisions -

20C102J - Rhyd y Groes - Caniatâd / Approved

20C300A - Tŷ Baner - Dim angen caniatâd blaenorol / *prior approval not required*

20C126B - Bryn Tirion - Dim angen caniatâd blaenorol / *prior approval not required*

20LPA962B/FR/CC – Mynediad i Bawb, Traeth Cemaes / *Access for All Cemaes Beach – Caniatad / Approved*

6.2 Ceisiadau / Applications

Nid oedd ceisiadau i'w trafod / *There were no applications to discuss.*

7 Gohebiaeth / Correspondence

7.1 Cafwyd cais gan y Cyngor Sir am wybodaeth am bobl oedd yn cysgu allan fel rhan o'u hymgyrch blyneddol.

The County Council has requested information on rough sleepers as part of their annual count.

7.2 Cafwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn ymwneud a difrod i goed y pentref gan gontractwyr torri gwair y Cyngor. Mae trefniadau wedi eu gwneud i adfer y sefyllfa ac mae rhai newydd am gael eu plannu.

The County Council have responded to the damage caused to trees in the village by their grass cutting contractors. Arrangements are now in place for future cuts and some of the trees are to be replaced.

7.3 Bydd fforwm gynllunio Môn yn cymryd lle nos lau Tachwedd 13 yn swyddfeydd y Cyngor Sir.

The Anglesey Planning Forum will take place on Thursday November 13th at the County Council Offices.

7.4 Gorchymyn Traffig Dros Dro – bydd rhannau o'r llwybrau cyhoeddus yn cau tra bod gwaith ym mhen draw'r traeth yn cael ei gwblhau. Bydd hefyd rhannau o'r lon yn Sgotland Bach wedi ei gau tra bod gwaith yn cymryd lle ar y lon 17-24/11/2014.

Temporary Traffic Order – parts of the footpaths will be closed temporarily due to the development at the far end of

the beach. The road at Sgotland Bach will also be closed whilst work is completed on the road between 17-24/11/14.

- 7.5 Hyfforddiant Cod Ymddygiad – cafwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dilyn llythyr y Cyngor Cymuned 5/8/2014. Bydd yr hyfforddiant yn cymryd lle bore lau Hydref 30 yn Llangefni.

Code of Conduct Training - a response was received from the County Council following the Community Council's letter 5/8/2014. The training is to take place Thursday morning October 30th.

- 7.6 Seminar Cynllun Datblygu ar y Cyd – gwahoddiad i aelod o'r Cyngor fynychu'r digwyddiad 7/11/2014 yn Llangefni.
Invitation for a member of the Council to attend the Joint Local Development Plan Seminar 7/11/2014 at Llangefni.

- 7.7 Mainc Bonc Y Môr - cafwyd e-bost gan deulu sydd am osod mainc coffa ym Mhonc y Môr. Maent wedi cynnig £1200 i'r Cyngor tuag at y gost o'r fainc, ei gosod, ac unrhyw waith tirlunio fydd ei angen. Fe gytunwyd y dylid derbyn eu cais mewn egwyddor a chael pris am y gwaith erbyn y cyfarfod nesaf. Bydd efallai posib i ail deulu gyfrannu tuag at osod mainc arall yn yr ardal fel rhan o'r prosiect.

Bench at Bonc y Môr - a family has emailed wishing to place a memorial bench at Bonc y Môr. They have offered £1200 to the Council towards the cost of the bench including fitting and any landscaping required. It was agreed to accept the offer in principle and to obtain a quote for the work by the next meeting. It may be possible for a second family to contribute towards a second bench as part of the project.

- 7.8 Grŵp Cynefin Group - mae grant hyd at £500 i'w gael tuag at brosiectau cymunedol. Cytuno y dylid rhoi cais am arian tuag at oleuadau Nadolig. A grant of up to £500 is available for community gprojects. It was agreed to apply for funding towards Christmas Lights.

8 Polisi Cydraddoldeb / Equality Policy

Diolchwyd i'r Clerc am gyfieithu'r polisi ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor.
The Clerk was thanked for translating the policy and it was adopted by the Council.

9 Croesfan / Crossing

Cafwyd diweddariad gan Wil Hughes am y sefyllfa bresennol a'r cais i gael gosod croesfan pelican i alluogi plan t yr Ysgol ac aelodau eraill o'r gymuned i groesi'r A5025 yn ddiogel. Diolchwyd iddo am ei waith a'i ymrwymiad.

Wil Hughes gave an update on the current situation with regard to the application to install a pelican crossing to enable school children and other members of the community to cross the A5025 safely. He was thanked for his work and commitment.

10 Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

Mae aelod o'r pentref am gael golwg ar yr hen oleuadau Nadolig a gweld beth all gael eu trwsio a'u hail defnyddio. Amcangyfrifwyd bydd y gost o brofi'r goleuadau tua £110, defnydd o 'cherry picker' am ddau ddiwrnod yn £225 a llafur yn £300, cyfanswm o £720. Bydd hefyd angen bylbiau newydd a chost o gynnal a chadw am fis (1/12/2014-6/1/2015) cyn eu tynnu i lawr. Cytuno y dylid gweld faint o oleuadau sydd yn gweithio yn gyntaf cyn trafod costau ymhellach.

Rhoddyd rhyddid i'r pwyllgor cyllid benderfynu a gweithredu ar y prisiau a ddaw ar yr amod eu bod o dan £500. Mae pris wedi ei dderbyn am goeden 17 troedfedd am £90.

Cytuno anfon llythyr cyffredinol i holl fusnesau ac unigolion y pentref i ofyn am gyfraniad tuag at gostau ar yr amod y bydd ceisiadau am grantiau i'w cyflwyno tuag at oleuadau Nadolig 2015. Bydd posib anfon y llythyr yn y Chronicle.

A member of the village has agreed to look at the old Christmas Lights to check what can be salvaged. It was estimated that the cost of checking the lights would be approx £110, use of a cherry picker for two days £225 and labour £300, a total of £720. There will also be a need for bulbs and the maintenance of the lights for a month (1/12/2014-6/1/2015) before they are taken down. It was agreed to see how many lights can be salvaged before discussing further.

The finance committee were given the power to act on the quotes given providing they were under £500. A 17 foot tree has already been priced at £90.

It was agreed to send a general letter to all businesses and individuals asking for a contribution towards the lights on

the condition that grant applications be submitted towards the Christmas Lights for 2015. It may be possible to distribute the letter in with Chronicle.

11 Toileddau / Toilets

- 11.1 Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir bydd toiledau'r traeth yn barod erbyn diwedd r wythnos. Cytuno bod angen i'r adeilad bod yn berffaith cyn i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb amdano. Disgwylir cadarnhad swyddogol gan Adrian Jones bod y gwaith wedi ei gwblhau. Trafodwyd y posibilrwydd o gael arolwg ar yr adeilad cyn arwyddo'r les er mwyn diogelu'r Cyngor yn y dyfodol.

The County Council have stated that the beach toilets will be ready by the end of the week. It was agreed that the building needs to be perfect before the Community Council takes on the responsibility. A formal confirmation is expected from Adrian Jones when the work has been completed. The possibility of a survey on the building to safeguard the Council was discussed.

- 11.2 Cafwyd pris o £30k gan y Cyngor Sir i brynu toiledau'r Stryd, gydag amcangyfrif o gostau rhedeg y toiledau tua £8k y flwyddyn. Cytuno bod y ffigyrau yma allan o gyrraedd y Cyngor ar hyn o bryd ac y byddai cyfarfod a Dewi Williams a/neu Dylan Edwards i drafod y mater ymhellach o fudd i'r Cyngor.

A cost of £30k has been quoted by the County Council for the toilets in the street, with an estimate of £8k annual running costs. It was agreed that these figures were out of reach for the Council at present and that a meeting with Dewi Williams and / or Dylan Edwards would be of benefit.

12 Gwaith Brics / Brickworks

Mae cytundeb yn ei le rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned ers 1998 yn datgan bod angen i'r Cyngor Cymuned gynnal a chadw'r safle a thalu am arolwg ar y simnai yn rheolaidd ac y byddai'r Cyngor Sir yn talu am unrhyw waith sydd ei angen. Y Cyngor Sir sydd berchen ar y gwaith brics ac nid yw'r gwaith brics wedi ei gynnwys ar bolisi yswiriant y Cyngor Cymuned. Cytuno yn unfrydol ysgrifennu at y Cyngor Sir yn datgan bod y Cyngor Cymuned yn rhoi'r cyfrifoldeb yn ôl i'r Cyngor Sir ac na fyddem yn cynnal a chadw'r safle mwyach. Bydd angen gwneud hyn cyn gynted â phosib.

There is a contract between the County Council and the Community Council since 1998 stating that the Community Council will maintain the site and pay for a regular survey on the chimney, and that the County Council will pay for any work that has to be done. The Brick works are owned by the County Council and are not included on the Community Council's insurance policy. It was unanimously agreed to write to the County Council to relinquish the responsibility of the brick works and stating that the Community Council will no longer be maintaining the site. This will have immediate effect.

13 Goleuadau Stryd / Street Lighting

Mae problem wedi ei adnabod yn 2010 ac mae'r sefyllfa wedi ei ail-asesu yn ddiweddar. Mae angen golau stryd ger mynedfa'r harbwr gan ei fod yn fan tywyll. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Eryl Davies i drafod ymhellach ac i weld os oes grant ar gael i dalu am y gwaith.

An issue was identified in 2010 and having re-assessed the situation the issue still exists. There is a need for a street light by the entrance to the harbour as it is a black spot. The Clerk was asked to contact Eryl Davies to discuss the possibility of whether a grant was available for the work.

14 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- 14.1 Ffens Dyffryn Wygyr / Fence at Wygyr Valley

Mae'r Cyngor wedi gosod ffens derfyn newydd rhwng tir y Cyngor a gardd y diweddar Mrs Watson. Mae llythyr wedi ei anfon i gadarnhau hyn i'r perchennog newydd.

The Council had erected a new fence along the boundary between the Council's land and the late Mrs Watson's garden. A letter has been sent to the new owners to confirm this.

- 14.2 Play Pod

Mae'r play-pod wedi ei symud o Dregele erbyn hyn gyda diolch i Dei Owens.
The play-pod has now been moved from Tregel with thanks to Dei Owens.

- 14.3 Llwybrau / Footpaths

Diolchwyd i'r Cadeirydd ac i Dei Owens am eu gwaith yn torri llwybrau a thwtio yn Nyffryn Wygyr dros fisoedd yr haf.

The Chair and Dei Owens were thanked for their work cutting footpaths and keeping the Wygyr Valley tidy throughout the summer.

15 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 17, am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.

The next meeting will be on Monday evening November 17 at the library for 7pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch. / *The meeting closed at 9pm.*